



Rhifyn Haf 2015

Croeso

Croeso i rifyn yr haf o Eich Cyngor Chi

Yn y rhifyn hwn, cewch wybod rhagor am y [gwaith arloesol ym maes tai ac adfywio](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/sylw-ar-raglen-tai-ac-adyfwio-fawr) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/sylw-ar-raglen-tai-ac-adyfwio-fawr), sy'n mynd rhagddo ar hyd a lled y Sir; yn [Beth sydd 'mlaen](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/beth-sydd-mlaen/mae-llawer-iw-wneud-yn-sir-y-fflint-yr-haf-hwn) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/beth-sydd-mlaen/mae-llawer-iw-wneud-yn-sir-y-fflint-yr-haf-hwn), cewch ddigon o syniadau am weithgareddau; cewch wybod am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgyrchu [yma](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/gwastraff-ac-ailgyrchu/newidiadau-yn-y-gwasanaeth-casglu-gwastraff) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/gwastraff-ac-ailgyrchu/newidiadau-yn-y-gwasanaeth-casglu-gwastraff); a chewch lawer rhagor o [newyddion am y Cyngor](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/eich-cyngor-chi/newyddion-y-cyngor) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/eich-cyngor-chi/newyddion-y-cyngor) hefyd.

Mae llywodraeth leol yn wynebu problemau anodd, na welwyd eu tebyg o'r blaen, ond gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn dangos bod Sir y Fflint yn parhau i weithio'n galed, ym mhob maes, i ddarparu'r gwasanaethau syn vglygu fwyaf i'n pobl leol.

Sylw ar...

Rhaglen tai ac adfywio fawr Sir y Fflint

Ar hyd a lled Sir y Fflint, mae rhaglen tai ac adfywio fawr yn mynd rhagddi wrth i Gyngor Sir y Fflint weithredu'n unol â'i flaenoriaethau i ddarparu tai cyngor newydd, tai fforddiadwy a chyfleoedd gwaith.

Cewch ragor o wybodaeth drwy glicio ar y dolenni isod.

[Cynllun tai ac adfywio arloesol yn cyrraedd carreg filltir bwysig](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/cynllun-tai-ac-adyfwio-arloesol-yn-cyrraedd-carreg-filltir-bwysig) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/cynllun-tai-ac-adyfwio-arloesol-yn-cyrraedd-carreg-filltir-bwysig).

[Y newyddion diweddaraf am fflatiau deulawr y Fflint](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/newyddion-diweddaraf-am-fflatiau-deulawr-y-fflint) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/newyddion-diweddaraf-am-fflatiau-deulawr-y-fflint)

[Cynllun gwerth sawl miliwn o bunnau yn dechrau i uwchraddio tai](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/cynllun-gwerth-sawl-miliwn-o-bunnau-yn-dechrau-i-uwchraddio-tai) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/cynllun-gwerth-sawl-miliwn-o-bunnau-yn-dechrau-i-uwchraddio-tai)

[Cynllun Tai Gofal Ychwanegol y Fflint yn cael enw](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/cynllun-tai-Gofal-Ychwanegol-y-Fflint-yn-cael-enw) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/cynllun-tai-Gofal-Ychwanegol-y-Fflint-yn-cael-enw)

[Lansio Rhestr Tai Newydd](http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/lansio-rhestr-tai-newydd) (http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/sylw-ar/lansio-rhestr-tai-newydd).



Cynllun tai ac adfywio arloesol yn cyrraedd carreg filltir bwysig

Rhaglen SHARP - partner datblygu wedi'i gyhoeddi

Mae carreg filltir bwysig wedi'i chyrraedd yn Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) uchelgeisiol Sir y Fflint, a fydd yn gweld tai cyngor newydd a thai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn y sir.

Mae'r contractwr tai fforddiadwy, Wates Living Space, wedi cael ei benodi fel y partner datblygu ar gyfer y prosiect, sy'n ganlyniad proses gaffael fawr.

Mae Wates Living Space yn un o fusnesau gwasanaethau datblygu ac adeiladu mwyaf blaenllaw'r DU, sy'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gyflwyno rhaglenni tai ac adfywio cymunedol newydd, y mae galw mawr amdanynt. Mae'r cwmni wedi gweithio'n flaenorol gyda'r Cyngor ar ei raglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae hyn yn golygu bod y cynigion i adeiladu 500 o gartrefi newydd - y bydd tua 200 ohonynt yn dai cyngor - yn gallu cael eu cwblhau nawr. Bydd y rhaglen yn dechrau gydag ailddatblygu tri safle - dau safle trefol ac un gwledig. Dyma safleoedd yr hen fflatiau deulawr yn y Fflint sydd wedi'u clirio i wneud lle i oddeutu 95 o dai a fflatiau, safle hen Custom House School yng Nghei Connah a gliriwyd, a safle gwledig yng Nghoed-llai.

Mae'r cynigion yn seiliedig ar Safon Tai Sir y Fflint sydd wedi'i datblygu mewn ymgynghoriad â thenantiaid. Bydd y safon yn llywio cynllun a manyleb y tai newydd arfaethedig, gan gynnwys cysondeb ac ansawdd da o ran edrychiad mewnol ac allanol y tai, yn ogystal â safonau effeithlonrwydd ynni a phwysigrwydd parcio digonol.

Dywedodd y Cynghorydd Helen Brown, Aelod Cabinet Tai: "Mae penodiad Wates Living Space fel y partner datblygu yn gyffrous iawn, a fydd yn gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu tai fforddiadwy newydd ac sydd wir eu hangen ar draws y Sir. Bwrriedir ymgynghori ymhellach ar ddyluniad y cartrefi newydd, gan amcangyfrif y bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno ddiwedd 2015."

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor: "Mae'n newyddion gwych ein bod nawr yn cymryd cam mawr arall ymlaen yn y rhaglen tai ac adfywio mwyaf cyffrous y mae'r Sir hon wedi'i gweld ers blynyddoedd lawer. Bydd y rhaglen SHARP yn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor hwn, nid yn unig i ddarparu cartrefi Cyngor newydd a thai fforddiadwy i bobl Sir y Fflint, ond hefyd i ddarparu gwaith lleol a chyfleoedd hyfforddi."

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet yr Amgylchedd: "Mae hwn yn sicr yn ddiwrnod hanesyddol i Sir y Fflint. O fewn cyd-destun pwysau parhaus ar wasanaethau'r Cyngor, mae'r rhaglen SHARP yn rhoi gobaith go iawn a chyfleoedd i bob cymuned yn Sir y Fflint."

Dywedodd Lee Sale, Cyfarwyddwr Busnes Rhanbarthol yn Wates Living Space: "Mae gan Wates Living Space berthynas hirsefydlog gyda Chyngor Sir y Fflint ac rydym yn hynod falch yr ymddiriedwyd ei Raglen Tai ac Adfywio Strategol newydd ynom."

"Yn ogystal â chartrefi o ansawdd uchel sy'n gwella ansawdd bywyd tenantiaid Sir y Fflint, rydym yn cyfrannu ymrwymiad dwfn i'r rhaglen hon i greu budd parhaol lleol, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth leol."

Fflatiau deulawr y Fflint



O'r chwith i'r dde: Y Cynghorydd Alex Aldridge, Clare Budden, Prif Swyddog Cymuned a Menter, Y Cynghorydd Helen Brown, Nik Evans, Uwch Reolwr Gwasanaethau Tai Cyngor, Tony Jones, Michael Freeley of J. Freeley Ltd ac Y Cynghorydd David Cox.

Mae'r blociau olaf o fflatiau yn y Fflint bellach wedi'u dymchwel

The Walks fydd y safle cyntaf i gael ei ail-ddatblygu fel rhan o Raglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) y Cyngor lle bydd cyfuniad o 95 o dai cyngor a thair fforddiadwy newydd yn cael eu hadeiladu gyda'r gwaith adeiladu i fod i ddechrau yng ngwanwyn 2016.

Bydd cynllun ailddatblygu safle The Leas yn cynnwys adeiladu cynllun Gofal Ychwanegol 72 uned newydd ar gyfer y dref a fydd yn cael eu hadeiladu a'u rheoli gan Grŵp Tai Pennaf. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar y cynllun ym mis Tachwedd 2015, a rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill 2017.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn codi canolfan feddygol newydd ar safle The Leas ac mae'r gwaith adeiladu i fod i ddechrau ym mis Tachwedd a disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd 2016.

Dywedodd y Cyngorydd Helen Brown, yr Aelod Cabinet Tai,

"Mae hwn yn gyfnod arbennig o gyffrous, nid yn unig ar gyfer canol tref y Fflint, lle bydd 167 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar hen safle'r fflatiau deulawr, ond ar gyfer y sir gyfan gan mai nod cynllun SHARP y cyngor yw adeiladu 500 o gartrefi newydd ar draws Sir y Fflint dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys dros 200 o dai cyngor newydd. Bydd Safon Tai Sir y Fflint a ddatblygwyd drwy ymgynghori â thenantiaid, yn llywio cynllun a manyleb y tai newydd arfaethedig, gan gynnwys ansawdd yr edrychiad mewnol ac allanol, safonau effeithlonrwydd ynni a darpariaeth parcio."

Dywedodd Clare Budden, Prif Swyddog, Cymuned a Menter,

Mae safle'r fflatiau deulawr wedi cael ei glirio fesul cam er mwyn ein galluogi i ail-gartrefu'r tenantiaid a effeithiwyd yn ofalus ac mae swyddogion y cyngor wedi gweithio'n galed gyda'n tenantiaid i ddyrannu cartrefi newydd sy'n bodloni eu gofynion ar gyfer y math o eiddo a lleoliad cyn belled ag y bo modd.

"Wrth i'r cyngor a'i bartneriaid symud yn nes at wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer adfywio Canol Tref y Fflint, hoffwn ddiolch i bobl y Fflint a busnesau lleol am eu hamynedd a'u dealltwriaeth wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen."

Dywedodd Y Cyngorydd Ian Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Prif Gynllun y Fflint,

"Gyda fy nghyd-gynghorwyr lleol Alex Aldridge a David Cox hoffwn ddiolch i bawb a symudodd eu cartref i ganiatáu'r datblygiad cyffrous hwn i ddwyn ffrwyth. Mae eu cydweithrediad a'u dealltwriaeth wedi bod yn amhrisiadwy. Hoffem ddangos ein diolch a'n gwerthfawrogiad hefyd i bawb sy'n ymwneud â'r prosiect am eu gweledigaeth, eu sgiliau, ymroddiad a'u penderfyniad i wthio'r cynllun yn ei flaen.

"Bydd y gwaith o ddatblygu llety cynllun gofal ychwanegol newydd yn dechrau'r Hydref hwn ac erbyn yr adeg hon y flwyddyn nesaf dylai fod gennym ddarlun clir o ganol tref newydd y Fflint yn codi o'r hen un."

Cynllun gwerth sawl miliwn o bunnau yn dechrau i uwchraddio tai



Mae gwaith mawr gwerth sawl miliwn o bunnau i uwchraddio cartrefi'r Cyngor ledled Sir y Fflint bellach wedi dechrau.

O fis Ebrill 2015, bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwario £111 miliwn dros chwe blynedd i sicrhau fod ei 7,200 o gartrefi yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Bydd y rhaglen waith hollol newydd hon yn creu cartrefi modern, effeithlon o safon i denantiaid y Cyngor ar draws y sir. Caiff ei ariannu'n bennaf drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, gyda rhywfaint o fenthyciadau darbodus, i sicrhau fod pob cartref sy'n perthyn i'r Cyngor yn cyrraedd y SATC erbyn 2020, sef y dyddiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd gwelliannau mewnol yn cael eu gwneud i'r tai yn gyntaf, yna gwelliannau allanol megis ffenestri newydd ac yna gwelliannau i'r tu allan i'r eiddo gan gynnwys llwybrau troed a ffensys.

Bydd rhaglen fawr o waith amgylcheddol yn cael ei chynnal hefyd mewn lleoliadau ar draws y Sir yn dilyn ymgynghoriad eang â thenantiaid ac aelodau lleol.

Mae oddeutu 200 o swyddi lleol ac 20 o brentisiaethau'n cael eu creu gan y cwmnïau sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran y Cyngor.

Y gwaith cyntaf fydd uwchraddio'r blociau o adeiladau uchel yn y Fflint sy'n cael ei wneud gan y contractwr SERS Energy Solutions Ltd, sydd wedi ennill y contract gan Gyngor Sir y Fflint. Bydd cwmni SERS Energy Solutions Ltd yn darparu gwaith trwsio concriid, insiwleiddio waliau allanol a thoeau er mwyn cynyddu hir oes yr adeiladau a gwella'u heffeithlonrwydd ynni. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys newid miloedd o ffenestri gwreiddiol, a fydd yn her logistaidd i gydgyssylltu crefftwyr yn y lleoliadau mwyaf agored.

Meddai'r Cynghorydd Helen Brown, Aelod o'r Cabinet dros Dai:

"Mae hwn yn gyfnod eithriadol o gyffrous ym maes tai yng Nghyngor Sir y Fflint. Mae'r cynllun pwysig hwn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i'n tenantiaid, ein tai Cyngor ac i sicrhau ein bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru cyn pen terfyn amser Llywodraeth Cymru."



Yr olygfa o Richard Heights yn y Fflint

Cynllun Tai Gofal Ychwanegol y Fflint yn cael enw

Llys Raddington fydd enw Cynllun Tai Gofal Ychwanegol newydd ar gyfer pobl hŷn yn y Fflint.

Yn ddiweddar, cafodd Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, sy'n rhan o Grŵp Tai Pennaf, ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu'r cynllun ar dir oddi ar Stryd Coleshill, sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd.

Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar y safle o fis Hydref 2015 a bydd yn para oddeutu 18 mis.

Bydd Llys Raddington yn darparu 72 o fflatiau hunangynhwysol un a dwy ystafell wely o safon uchel ynghyd ag ystod eang o gyfleusterau cymunedol, a bydd yn cael ei reoli gan Tai Clwyd Alyn Cymdeithas mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint.

Mae'r Cynghorydd Ian Roberts, sy'n Gadeirydd ar Grŵp Llywio Uwch gynllun y Fflint, yn egluro:

"Mae gan yr enw 'Raddington' gysylltiad agos â hanes y Fflint, gan mai dyma oedd enw'r anheddiad gwreiddiol. Cafodd tref y Fflint, fel y caiff ei galw bellach, ei chrybwyll gyntaf yn llyfr Domesday yn 1086, pan gyfeiriwyd ato fel Raddington. Dyma'r ardal lle cafodd Castell y Fflint ei adeiladu, ond erbyn diwedd y 13eg ganrif, cafodd bwrdeistref y Fflint ei chreu, a diflannodd yr enw Raddington

"Awgrymwyd Raddington i ddechrau gan y Cynghorydd Vicky Perfect, a oedd am weld yr enw'n ymddangos fel rhan o adfywiad y Fflint. Pan ddaeth i benderfynu ar enw i'r cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd, teimlais mai dyma oedd y cyfle perffaith, ac felly cytunwyd ar yr enw Llys Raddington.



"Rydym yn darganfod mwy a mwy am darddiad canoloesol y dref. Rydym yn teimlo bod yr enw hwn yn berffaith ac yn briodol, gan gysylltu hanes balch y Fflint gyda dyfodol cyffrous y dref."

Dyweddodd y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint:

"Dyma gam mawr arall ymlaen ar gyfer ein cynllun gofal ychwanegol diweddaraf yn Sir y Fflint. Gyda'r Cyngor a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd, rydym i gyd yn edrych ymlaen at weld y cynllun hwn yn blodeuo. Bydd Llys Raddington yn darparu cyfleusterau ardderchog i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion."

Ychwanegodd y Cynghorydd Helen Brown, Aelod Cabinet dros Dai Cyngor Sir y Fflint:

"Mae enw Llys Raddington yn ddewis gwych ac ysbrydoledig. Mae'r cynllun Gofal Ychwanegol yn y Fflint yn gyfle arall gwych i ddatblygu tai sy'n galluogi pobl hŷn i ddewis ffordd arall o fyw a chadw eu hannibyniaeth a'u lles"

Dyweddodd Graham Worthington ar gyfer Grŵp Tai Pennaf:

"Bydd y cynllun newydd, fel anheddiad gwreiddiol Raddington, mewn lleoliad allweddol gan mai hwn fydd canolbwynt y gymuned. Rydym yn credu ei bod yn ffordd ddelfrydol o groesawu'r dyfodol gydag ymdeimlad priodol o barch tuag at drefnadaeth yr ardal."

Gall unrhyw un sydd am gofrestru i gael pecyn gwybodaeth am y fflatiau newydd gysylltu â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn ar 01745 538300 neu e-bostio enquiries@clwydalyn.co.uk



Argraffiad artist o'r Tai Gofal Ychwanegol i bobl hŷn a gynllunir ar gyfer y Fflint.

Lansio Rhestr Tai Newydd

Cofrestrau Tai Unigol yng Nghonwy a Sir y Fflint

Mae'r ffordd y byddwch yn gwneud cais am dai cymdeithasol a sut mae cartrefi yn cael eu dyrannu yng Nghonwy a Sir y Fflint wedi newid.

Mae Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r holl Gymdeithasau Tai yn y siroedd hyn yn gweithio mewn partneriaeth i'w gwneud yn haws i bobl wneud cais am dai cymdeithasol.

Bellach un gofrestr tai sydd yna i bob sir ac mae pob eiddo yn cael ei ddyrannu o'r gofrestr unigol honno. Gynt roedd gan bob Cyngor a chymdeithas tai eu cofrestrau tai eu hunain ac roedd yn rhaid i ddarpar denantiaid wneud cais i bob un ar wahân.

Mae'r system newydd yn anelu i'w gwneud yn haws i wneud cais am dai cymdeithasol a gwneud y gofrestr tai yn haws i'w deall.

O dan y system newydd, bydd pobl sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn bodloni meini prawf statudol penodol, a fydd yn penderfynu ar eu lefel o angen am dai.

Byddant hefyd yn cael eu hasesu o ran eu cysylltiad lleol â'r ardal a'r gymuned y maent yn dymuno byw ynddi. Mae gan y system newydd nifer o fandiau, a dim ond y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf, ac â'r brys mwyaf, fydd yn y bandiau uwch, ac felly'n cael blaenoriaeth ar gyfer tai.

Bydd Datrysiadau Tai yn trafod y dewisiadau tai gorau ar gyfer pob cwsmer yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Bydd y cyngor yn cynnwys yr ystod gyfan o ddewisiadau tai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, llety rhent preifat, perchnogaeth cartref a dewisiadau eraill sydd ar gael.

Dyweddod y Cyng. **Phil Edwards, Aelod Cabinet Cymunedau Conwy**, "Mae prinder o dai cymdeithasol a bydd y dull newydd hwn yn ein galluogi i ddarparu ystod o opsiynau realistig i bobl i'w helpu i ddiogelu tai yn yr ardal o'u dewis, drwy archwilio ystod o opsiynau sydd ar gael yn y sir."

Dyweddod y Cyng. Helen Brown, Aelod Cabinet Tai, Cyngor Sir y Fflint,

"Mae'r system newydd hefyd yn berthnasol i'r rhai hynny ar un o'r rhestrau aros presennol. Rydym wedi ysgrifennu at yr holl bobl hyn yn esbonio'r system newydd ac yn gofyn a ydynt yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer y rhestr newydd."

Os ydych yn gwneud cais am gartref yn Sir y Fflint neu yng Nghonwy, mae'n rhaid i chi wneud cais i:

Conwy:

Datrysiaidau Tai Conwy 0300 1240050

www.taiconwy.co.uk (<http://www.taiconwy.co.uk/>)

Sir y Fflint:

Datrysiaidau Tai Sir y Fflint 01352 703777


<http://www.taiffllint.co.uk/dyweddod/> (<http://www.taiffllint.co.uk/dyweddod/>)

Newyddion y Cyngor

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Mae'r Cyngor wedi diweddarau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn awdurdod lleol sy'n perfformio'n dda er gwaethaf y bwlch ariannol heriol a chyllideb sy'n lleihau pob blwyddyn.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2015 - 2018 yn rhagweld yr adnoddau tebygol a fydd ar gael i'r Cyngor yn ystod y tair blynedd ariannol nesaf ac yn helpu i gynllunio ar gyfer y ffordd orau i'w defnyddio. Gostyngiadau yn y grantiau a geir gan Lywodraeth Cymru, y galw cynyddol am wasanaethau hanfodol a chost rhwymedigaethau cyfreithiol yw rhai o'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Ar hyn o bryd fe ragwelir y bydd angen i'r Cyngor gael hyd i £52.8 miliwn yn y tair blynedd nesaf: £18.3 miliwn yn 2015/16, £20.8 miliwn yn 2016/17 ac £13.7 miliwn yn 2017/18. Bydd y Cabinet yn trafod rhan gyntaf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddydd Mawrth 16 Mehefin, gan ganolbwyntio ar y rhagolygon ariannol. Y pum prif ffactor a ystyrir fydd: pwysau costau cenedlaethol, pwysau costau lleol, incwm, gweithlu'r Cyngor, a chwyddiant.



Mae ail ran y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae'n nodi'r atebion a'r dewisiadau sydd ar gael i'r Cyngor i helpu i gau'r bwlch cyllido hwn. Mae Prif Swyddogion ac Aelodau Cabinet wedi adolygu'r dewisiadau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf, gan ystyried y cynlluniau busnes sy'n datblygu ar gyfer pob portffolio. Mae'r gwaith hwn, yn ogystal â strategaethau'r Cyngor ar gyfer newid sefydliadol a diwygio gwasanaethau, yn ffurfio ail ran y Strategaeth. Byddwn yn ymgysylltu'n llawn ag Aelodau ar ei ddatblygiad yn ystod yr haf.

Dyweddod y Cyng. Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor:

"Mae pob cyngor yng Nghymru yn wynebu sefyllfa ariannol na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae cael rhagolwg tymor canolig cywir yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd yn heriol ac mae'n rhaid i ni wneud rhai rhagdybiaethau, ond rydym yn teimlo bod y Strategaeth hon yn asesiad teg. Mae Sir y Fflint yn gweithio'n ddiflino i lenwi'r bwlch cyllido mawr ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fod yn Gyngor effeithlon a chost effeithiol, ond mae yna derfyn ar yr hyn y gall ein gwasanaethau cyhoeddus eu gwneud yn wyneb y toriadau blynyddol."

Dyweddod Colin Everett, y Prif Weithredwr y Cyngor:

"Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ddogfen arwyddocaol sy'n rhagweld sefyllfa ariannol y Cyngor dros y tair blynedd nesaf. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, rydym ni wedi sicrhau'r rhan fwyaf o'r arbedion drwy symleiddio'r Cyngor ac arbed costau. Ond, bob blwyddyn rydym yn gorfod bod yn fwy creadigol gyda'n cynilion - a dyna pam rydym ni'n dal yn apelio at gymunedau i weithio gyda ni dan ein rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol. Rydw i hefyd yn annog pawb i ddarllen y ddogfen hon - mae'n nodi sefyllfa ariannol y Cyngor mewn modd hygyrch iawn."

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael fel rhan o agenda'r Cabinet ar gyfer mis Mehefin [yma](#)

(<http://cyfarfodyddpwyllgor.sir.yffllint.gov.uk/ielistDocuments.aspx?CId=391&MId=3319&Ver=4&LLL=undefined>)

Y Cyngor yn croesawu adroddiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru

Mae adroddiad allanol blynyddol am Gyngor Sir y Fflint a ryddhawyd yn dangos bod y Cyngor yn awdurdod cyhoeddus sy'n cael ei redeg yn dda ac yn effeithlon ac sy'n parhau i berfformio'n dda.

Mae'r Cyngor wedi croesawu ei Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO).

Ar y cyfan, mae'r casgliadau'n ffafriol, ac mae'r rheoleiddwyr allanol yn hyderus bod record gref y Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i wynebu heriau ariannol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn dangos na fu'r Cyngor yn destun pryder rheoleiddio nac ymyrraeth gan y Llywodraeth yn ystod cyfnod anodd i lywodraeth leol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud cynnydd da'n gyffredinol o ran rhoi ei flaenoriaethau gwella ar waith ac mae'n perfformio'n dda mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Tynnir sylw penodol at berfformiad ysgolion y Sir a dywedir eu bod yn cynnig gwerth am arian. Caiff gwaith y Cyngor i helpu i liniaru effaith y toriadau i fudd-daliadau lles ac i leihau tldi tanwydd hefyd ei ganmol.

Wrth groesawu'r adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor:

"Mae'r adroddiad diweddaraf hwn gan archwilwyr allanol y Cyngor yn amlygu'r ffaith bod Cyngor Sir y Fflint yn parhau i berfformio'n dda. O dan y weinyddiaeth bresennol, mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ystod y tair blynedd diwethaf ym mhob un o'r meysydd y nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod angen eu gwella. Er gwaethaf y pwysau ariannol dwys, mae Sir y Fflint yn parhau i lwyddo yn y meysydd y mae'n rhoi blaenoriaeth iddynt: tai, gofal cymdeithasol, addysg a'r economi."

Ychwanegodd Colin Everett, y Prif Weithredwr:

"Gallwn ein bodloni'n hunain fod Sir y Fflint yn gwella o'r naill flwyddyn i'r llall. Rydym yn Gyngor uchel ei berfformiad sy'n gost-effeithiol; nid ydym am orffwys ar ein rhwyfau a byddwn bob amser yn ymdrechu i wella. Fodd bynnag, mae'r dyfodol ariannol yn peri pryder mawr i ni a bydd yn anodd iawn cynnal y llwyddiant yn wyneb gostyngiadau sylweddol yn ein cyllid."

Campws Dysgu Treffynnon



Mae gwaith wedi hen ddechrau ar safle Campws Dysgu Treffynnon sy'n werth £30 miliwn.

Bydd ysgol gynradd newydd yn cymryd lle Ysgol Fabanod Perth y Terfyn ac Ysgol Iau y Fron ar gyfer dysgwyr hyd at 11 oed. Bydd yr ysgol hon ar yr un safle â'r cyfleuster newydd i Ysgol Uwchradd Treffynnon, a adeiladir i ddarparu addysg i ddisgyblion 11 i 16 oed.

Disgwylir i'r ysgolion newydd agor ym mis Medi 2016 a defnyddir y cyfleusterau presennol tan hynny i osgoi unrhyw aflonyddwch i'r dysgwyr.

Bydd gan yr ysgol uwchradd newydd dri llawr a lle i 600 o ddisgyblion a bydd gan yr ysgol gynradd un llawr a lle i 315 o ddisgyblion. Caiff plant cynradd a disgyblion uwchradd eu haddysgu mewn adeilad newydd sbon o'r radd flaenaf gyda chyfleusterau TG modern i gynorthwyo eu haddysg.

Yn ddiweddar, cafodd Mr Peter Davies sydd ar hyn o bryd yn bennaeth yn Ysgol y Fron, Treffynnon, ei benodi gan Gorff Llywodraethu Dros Dro Ysgol Gynradd newydd Treffynnon i fod yn Bennaeth Dynodedig ar gyfer yr ysgol newydd pan fydd yn agor y flwyddyn nesaf.

Yn y cyfamser, bydd Mr Davies yn aros yn ei swydd fel Pennaeth Ysgol y Fron a bydd Mrs Yvonne Barker yn parhau yn ei swydd fel Pennaeth Ysgol Perth-y-Terfyn. Mae penaethiaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol yn cydweithio i sicrhau cyfnod pontio esmwyth i'r ysgol newydd.

Mae'r prosiect hwn yn derbyn arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru drwy ei Raglen Ysgolion ac Addysg y 21ain Ganrif, sef cydweithrediad unigryw rhwng awdurdodau lleol i greu cymunedau addysgol sy'n addas i Gymru yn y 21ain Ganrif.

Gwelir manylion y cynigion, gan gynnwys taith rithwir 3D, ar wefan y Cyngor.

Canolfan chweched dosbarth newydd sbon

Er mwyn cydnabod camau olaf y gwaith o godi'r gwaith dur yn adeilad Canolfan Addysg Ôl-16 Glannau Dyfrdwy, cafodd un o'r trawstiau ei bersonoleiddio â llofnodion disgyblion ysgolion lleol, staff o Goleg Cambria, cyngorwyr lleol ac aelodau o Gyngor Sir y Fflint.

Cafodd disgyblion o Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd Treffynnon ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, gyfle i ychwanegu eu llofnodion ar y trawst cyn ei wlyo'n cael ei osod yn yr adeilad newydd fore Gwener diwethaf.

Mae'r ganolfan addysg newydd gwerth £13m yn cael ei datblygu ar y cyd rhwng Coleg Cambria, ysgolion lleol a Chyngor Sir y Fflint a fydd yn defnyddio lleoliad canolog rhwng safle Glannau Dyfrdwy Coleg Cambria ac Ysgol Uwchradd Cei Connah. Mae'r Ganolfan wedi'i llunio i gynnig cwricwlwm ehangach i ddysgwyr ôl-16 a bydd ganddi gyfleusterau o'r radd flaenaf i ddarparu profiad dysgu cwbl ysbrydoledig i hyd at 700 o fyfyrwr.

Mae'r adeilad tri llawr yn cynnwys cyfleusterau arbenigol celfyddydau perfformio, cerddoriaeth, gwyddoniaeth a chelfyddydau creadigol yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth addysgu cyffredinol a manau astudio cymdeithasol a phreifat. Bydd mynedfa newydd yn cael ei chreu o Lôn Goltfyn ynghyd â maes parcio i staff ac ymwelwyr yn ogystal â maes parcio i fysiau i wasanaethu safle ehangach Coleg Cambria.

Bydd y ganolfan ar agor i fyfyrwr yn Hydref 2016. Dechreuodd y prif gontractwr, Wynne Construction, weithio ar y safle ym mis Mawrth 2015.

Sir y Fflint yn croesawu cyllid ar gyfer y priffyrdd

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint yn falch o gyhoeddi bod £1.4 miliwn wedi ei sicrhau ar gyfer cynlluniau cludiant a fydd yn cael eu rhoi ar waith y flwyddyn ariannol hon.

Bydd y gwelliannau yn cynnwys adnewyddu signalau traffig ar yr A548 Sealand Road / Cyffordd Seahill Road, gosod camera cyflymder sefydlog ar ffordd ddeuol yr A541 Pontblyddyn (am yr Wyddgrug), gwella marciau ffordd, arwyddion ac arwyneb tair cylchfan o fewn Parthau 2, 3, a 4 Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar yr A548, a chreu llwybr troed i wasanaethu Ysgol Uwchradd Argoed ym Mynydd Isa.

Mae'r cyllid yn rhan o gais blynyddol i Lywodraeth Cymru yn dilyn asesu a blaenoriaethu holl safleoedd damweiniau yn y sir.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge, Aelod Cabinet yr Amgylchedd a'r Dirprwy Arweinydd:

"Bydd y gwelliannau yn helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau anafiadau ar rwydwaith ffyrdd Sir y Fflint. Bydd y cynigion yn sicrhau gwelliannau diogelwch sydd wir eu hangen ac a fydd yn helpu'r defnyddwyr mwyaf diamddiffyn. Rydw i'n siŵr y bydd y gwaith yn cael ei groesawu gan bawb sy'n defnyddio'r ffyrdd."



Y Cyng. Bernie Attridge ac Anthony Stanford, Uwch Beiriannydd Trafnidiaeth Cyngor Sir y Fflint ym Mynydd Isa.

Gweinidog yn ymweld â'r Ganolfan Dechrau'n Deg newydd



Mae Lesley Griffiths AC, y Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi, wedi ymweld â'r ganolfan Dechrau'n Deg newydd yn Ysgol Bryn Deva yng Ngheï Connah i weld y gwasanaethau gofal plant gwych a'r cyfleusterau y mae'n eu cynnig.

Agorwyd y ganolfan y llynedd, diolch i grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru o £825,000.

Mae cyfleusterau Dechrau'n Deg yn cynnig gofal plant am ddim o ansawdd da i rieni cymwys â phlant sy'n ddwy neu dair oed, cefnogaeth rhianta, gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell a chymorth gyda datblygiad iaith gynnar. Maent yn helpu teuluoedd i ofalu am iechyd a lles eu plant.

Cyn y ddarpariaeth newydd, roedd gwasanaethau Dechrau'n Deg yng Ngheï Connah yn gweithredu o nifer o leoliadau yn y dref. Darparwyd gofal plant yn Ysgol Bryn Deva ac roedd y galw am leoedd yn aml yn fwy na'r lleoedd oedd ar gael. Gan weithio mewn partneriaeth â'r ysgol a Chylch Chwarae Jig-so, mae'r ganolfan bwrpasol yn darparu ystod lawn o wasanaethau Dechrau'n Deg o dan yr un to. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni rhianta, sesiynau iechyd i blant, grŵp iaith gynnar a chyfleusterau crèche. Mae 48 o blant nawr yn gallu manteisio ar eu hawl gofal plant Dechrau'n Deg yn y ganolfan, sy'n golygu y gellir diwallu ceisiadau am leoedd gofal plant yn llawn nawr.

Mae gwasanaethau Dechrau'n Deg yn yr ysgol hefyd wedi cael eu ehangu i gynnwys cyrsiau tyllino babanod, datblygiad iaith gynnar a rhaglenni rhianta, sy'n cael eu darparu i rieni sy'n gallu dod â'u plant gyda nhw i gael gofal gan staff cymwys, yn y crèche ar y safle.

Y Cyngor yn derbyn y gwerthusiad uchaf mewn Adolygiad o Gartrefi Gofal



Mae Cyngor Sir y Fflint wedi derbyn y gwerthusiad uchaf yn Adolygiad Cartrefi Gofal diweddaraf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Sarah Rochira, wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar "Lle i'w Alw'n Gartref?", yn dilyn ei hadolygiad o ansawdd bywyd a gofal i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ledled Cymru.

Dyma'r adolygiad mwyaf o'i fath i'w gynnal erioed yng Nghymru, ac mae'r adroddiad yn nodi gofynion ar gyfer gweithredu er mwyn sicrhau bod ansawdd bywyd yn ganolog i ddarparu gofal preswyl a nyrsio.

Yn yr adroddiad, gwelir fod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi derbyn saith gofyn penodol i'w gweithredu, a rhai ohonynt yw sicrhau bod pobl hŷn yn cael llais a bywyd o safon yn eu cartrefi gofal, gan gynnwys cyfleoedd i gadw cyfeillgarwch sy'n bodoli eisoes; bod

mynediad ar gael i wasanaethau arbenigol os oes angen, a bod staff yn cael hyfforddiant dementia fel rhan o ddatblygiad parhaus y gweithlu hanfodol mewn cartrefi gofal.

Ym mhob un o'r saith argymhelliad, derbyniodd ymateb Cyngor Sir y Fflint y lefel uchaf gan y Comisiynydd - yr unig awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru i wneud hynny. Mae graddau'r categorïau'n amrywio o'r uchaf ('derbyniol'), i 'rhannol' ac 'annerbyniol'.

Dywedodd y Cyngorydd Christine Jones, Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol:

"Dyma gadarnhad rhagorol gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gwerthfawrogi ei berthynas â chartrefi gofal lleol o fewn y Sir, ac rydym wedi buddsoddi llawer o amser i weithio gyda'n gilydd i ofalu am ein pobl hŷn. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i'n partneriaeth sy'n gweithio gyda chartrefi gofal a chyda rheolwyr cartrefi gofal yn benodol, ac rwy'n falch fod yr ymrwymiad hwnnw wedi'i gydnabod."

Mae manylion llawn am yr adroddiad ar gael gael yn http://www.olderpeoplewales.com/en/Reviews/Residential_Care_Review.aspx (http://www.olderpeoplewales.com/en/Reviews/Residential_Care_Review.aspx)

Hen safleoedd tirlenwi yn cynhyrchu incwm sylweddol i'r Cyngor Sir

Mae dau safle tirlenwi ym Mwcle wedi cynhyrchu incwm o dros £400,000 i Gyngor Sir y Fflint mewn cyfnod o ddeuddeg mis.

Caiff nwy methan ei gynhyrchu ar safle tirlenwi Brookhill a Standard wrth i'r gwastraff a adawyd yno bydru drwy broses dadelfennu biolegol anerogig. Caiff y nwy ei droi'n drydan gan beiriannau cynhyrchu trydan sy'n defnyddio nwy fel tanwydd, ac oddi yno, caiff y nwy ei fesur a'i ddosbarthu ar foltedd uchel (11,000 folt) i'r Grid Cenedlaethol.

Yna, caiff yr ynni ei werthu mewn arwerthiant drwy'r *Non Fossil Purchasing Agency* yn ôl prisiau cyfredol trydan ar y farchnad, gan ddefnyddio cytundebau chwe mis a gymeradwyir gan y diwydiant.

Yn ystod 2014, cynhyrchwyd cyfanswm o 4,300 megawat o drydan ar y ddau safle - sy'n ddigon i gyflenwi trydan i tua 1,700 o gartrefi bob blwyddyn.

Cynhyrchwyd incwm o oddeutu £440,000 o'r nwy methan, sy'n creu ffrwd refeniw y mae ei ddirfawr angen ar y Cyngor Sir.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gynhyrchu rhagor o ynni, gyda'r posibilrwydd o osod paneli solar ar y ddau safle tirlenwi. Mae disgwyl i'r paneli PV greu rhagor o ynni i'w werthu i'r Grid Cenedlaethol, gan greu incwm o £50,000 y flwyddyn. Gallai hefyd fod yn gyfle i'r Cyngor greu ei gyflenwad ynni adnewyddadwy ei hun ar gyfer ei fflyd o gerbydau .

Dywedodd y Cyngorydd Kevin Jones, Aelod y Cabinet dros Strategaeth Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Hamdden

"Ar adeg pan fo'r Cyngor Sir yn wynebu toriadau llymach nag a welwyd erioed o'r blaen, rydym yn croesawu'r newyddion fod dau o'n cyn safleoedd tirlenwi'n cynhyrchu gymaint o incwm i'r awdurdod lleol - arian y gallwn ei ddefnyddio i wrthbwysu'r toriadau sy'n ein hwynebu.

"Mae'r ynni adnewyddadwy y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio hefyd yn helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni o ffynonellau ynni gwyrdd ac mae hefyd yn helpu i gadw at safonau ansawdd aer cenedlaethol."

Cadeirydd Newydd



Y Cyngorydd Peter Curtis, Is-Gadeirydd a'r Cyngorydd Ray Hughes, Cadeirydd

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ethol Cadeirydd sef y Cyngorydd Ray Hughes.

Mae'r Cyngorydd Ray Hughes yn cynrychioli Coed-llai ers 2008. Roedd yn gyngorydd dros Gyngor Bwrdeistref Delyn ac mae hefyd yn gyngorydd cymuned ers dros 40 o flynyddoedd. Mae'n briod â Gwenda ac mae ganddo dri o feibion.

Mae'r Cyngorydd Hughes yn gyn saer ac mae'n weithgar iawn yn ei gymuned leol. Mae ganddo ddi-ddordeb mawr mewn pêl-droed a chwaraeon yn gyffredinol.

Yr Is-gadeirydd dros y 12 mis nesaf fydd y Cyngorydd Peter Curtis.

Mae'r Cyngorydd Curtis yn cynrychioli Treffynnon Ganolog ac mae wedi bod yn aelod o Gyngor Sir y Fflint ers 1995. Ef oedd Cadeirydd y Cyngor yn 2005/6. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Tref Treffynnon ac mae wedi bod yn Faer dair o weithiau.

Mae'r Cyngorydd Curtis yn byw yn Nhreffynnon, mae'n briod â Jenny ac mae ganddo ddau o blant.

Gwirfoddoli i helpu plant a phobl ifanc

Gall gwirfoddoli fod yn ffordd werth chweil o ddefnyddio'ch amser hamdden. Os ydych yn chwilio am gyfle diddorol a buddiol, yna byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn sicr yn elwa o'ch amser a'ch profiad.

Mae'r Tîm Cymorth i Deuluoedd a'r Glasoed (FAST) wedi bod yn recriwtio gwirfoddolwyr i weithredu fel mentoriaid i blant a phobl ifanc ers chwe blynedd. Mae'r tîm o wirfoddolwyr yn amrywiol ac rydym yn recriwtio dynion a merched o bob rhan o Sir y Fflint a chanddynt sgiliau a phrofiadau gwahanol.

Mae mentoriaid yn cael eu paru â pherson ifanc a byddant yn meithrin perthynas am hyd at 12 mis. Yn gyffredinol, bydd mentoriaid yn cyfarfod â'r person ifanc unwaith yr wythnos am ychydig oriau i weithio tuag at amcanion penodol ac i drafod unrhyw faterion a phroblemau sy'n wynebu'r person ifanc. Mae pob profiad o fentora'n wahanol, a bydd llawer yn dibynnu ar bersonoliaeth ac anghenion y person ifanc.

Dechreuodd Louise wirfoddoli'r llynedd ac mae'n mwynhau ei rôl newydd fel mentor: "Rhan fawr o'r rôl yw meithrin hyder a hunan-barch. Mae'n braf gallu rhoi cyfle i bobl ifanc roi cynnig ar wahanol weithgareddau – gallant barhau i gymryd rhan yn y rhain pan ddaw'r mentora i ben. Rwy'n hoffi meddwl fy mod yn gallu cynnig anogaeth ac arweiniad i berson ifanc gan sicrhau eu bod hefyd yn mwynhau."

Ychwanegodd Julie, gwirfoddolwr arall: "Rwyf wrth fy modd yn gwirfoddoli fel mentor oherwydd fy mod yn teimlo fel fy mod yn gwneud gwahaniaeth i berson ifanc a'i deulu. Rydym yn cael hwyl hefyd ac mae perthynas dda rhwng y mentoriaid pan fyddwn yn cyfarfod bob mis."

Mae Emma wedi bod yn fentor gwirfoddol am dair blynedd ac yn cytuno ei fod yn brofiad buddiol iawn i'r gwirfoddolwyr, "Mae'r rôl wedi rhoi'r hyder i mi ddefnyddio sgiliau a galluoedd nad oeddwn yn gwybod eu bod gen i ac rwy'n teimlo'n falch o wybod ein bod, fel tîm, yn cyflawni cymaint."

Os oes gennych ddi-ddordeb bod yn fentor gwirfoddol, cysylltwch ag Andrea Wade ar 01352 701089 neu e-bostiwch andrea.wade@flintshire.gov.uk (<http://yourcouncil.flintshire.gov.uk/cymraeg/rhifyn-haf-2015/%22mailto:>).

Newidiadau i Wasanaethau

Newidiadau yn y gwasanaeth casglu gwastraff

Hoffem ddiolch i bawb yn y sir am y flwyddyn ailgylchu orau erioed yn Sir y Fflint unwaith eto. Mae'r ffigurau presennol ar gyfer 2015/16 dangos cyfradd ailgylchu o 58% at ei gilydd, sy'n well nag erioed o'r blaen yn Sir y Fflint.

Fodd bynnag, i sicrhau bod ein perfformiad yn parhau i wella ac i'n helpu i sicrhau arbedion hanfodol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, mae'r Cyngor yn gorfod cyflwyno nifer o newidiadau i'ch gwasanaeth casglu gwastraff.

Mae'r manylion llawn i'r gweld yn <http://www.sirymfflint.gov.uk/> (<http://www.sirymfflint.gov.uk/>). Mae rhai o'r newidiadau wedi'u rhestru isod.

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor saith Canolfan Ailgylchu drwy'r Sir. Nid yw perfformiad y Canolfannau hyn cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r Canolfannau mwy yn perfformio'n well na'r canolfannau llai gan eu bod yn gallu cynnig mwy o gyfleoedd i ailgylchu. Nid yw rhai o safleoedd presennol Cyngor yn ddigon mawr i ddarparu gwasanaeth ailgylchu llawn ac, er mwyn ceisio gwella perfformiad cyffredinol y gwasanaeth, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol.

Mae Canolfannau Ailgylchu Cei Connah a'r Fflint bellach ar agor ar ddydd Sadwrn, Sul a Llun yn unig, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rhagor yn defnyddio'r safleoedd hyn ar y dyddiadau hynny.

Mae Canolfan Ailgylchu'r Hôb bellach yn cael ei rhedeg fel safle 'ailgylchu yn unig' ar benwythnosau'n unig.

Ar y dyddiau y mae'r safleoedd hyn ar gau bydd preswylwyr yn cael eu cyfeirio at ein Canolfannau Ailgylchu mwy.

Bydd nifer y staff yn cynyddu ar safleoedd yr Wyddgrug, Bwcle, Sandycroft a Maes Glas. Eu rôl fydd annog pobl i 'ailgylchu'n gyntaf'. Bydd sgipiau ailgylchu ychwanegol yn cael eu gosod yn lle'r sgipiau ar gyfer gwastraff cyffredinol, gan y bydd yr holl wastraff a gaiff ei gludo i'r Canolfannau'n cael ei archwilio i sicrhau bod cymaint â phosibl ohono'n cael ei ailgylchu. Bydd rheolau llymach ar gyfer trwyddedau faniau.

Biniau heb eu casglu

Mae'r Cyngor Sir yn casglu hyd at 264,000 o finiau gwastraff ac ailgylchu bob wythnos. Mae'n anochel y bydd nifer fach o finiau a chynwysyddion yn cael eu methu. Gall y criw casglu eu methu weithiau ond, yn aml iawn, y preswylwyr eu hunain sy'n anghofio rhoi'r gwastraff allan ar amser, neu maent yn rhoi'r gwastraff anghywir allan i'w gasglu. Mae'r gost o ddychwelyd i gasglu'r gwastraff hwn yn rhoi baich ariannol sylweddol ar y gwasanaeth.

Ar ôl 1 Tachwedd ni fyddwn yn dychwelyd i nôl biniau sydd wedi'u cofnodi fel rhai a fethwyd. I sicrhau nad yw'ch biniau'n cael eu methu ar eich diwrnod casglu, byddwn yn cyflwyno system 'unigolyn cyfrifol' ar y prif rowndiau casglu a fydd yn gyfrifol am gofnodi fod gwastraff wedi'i gasglu ar bob ffordd neu stryd.

Ni fydd y Cyngor Sir bellach yn dychwelyd i gasglu biniau preswylwyr sy'n ein hysbysu fod eu casgliad gwastraff wedi'i fethu ar ôl i'r unigolyn cyfrifol gofnodi fod y casgliadau wedi'u cwblhau ar y stryd. Gofynnir i breswylwyr ddefnyddio eu Canolfan Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref agosaf neu roi eu gwastraff allan ar y diwrnod casglu nesaf.

Gwasanaeth Gwastraff o'r Ardd: Codi tâl am finiau brown ychwanegol

Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr bellach yn codi tâl ar eu preswylwyr am gasglu pob gwastraff o'r ardd. Fodd bynnag, gan fod y casgliadau gwastraff o'r ardd yn cyfrannu'n sylweddol at ein perfformiad ailgylchu cyffredinol a gan fod ein cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn gyffredinol, bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gasglu un bin brown o bob eiddo.

Fodd bynnag, o fis Mawrth 2016, cyflwynir tâl blynyddol am unrhyw finiau ychwanegol a roddir allan gan breswylwyr.

Gan nad oes llawer o breswylwyr yn defnyddio'r gwasanaeth casglu gwastraff yr ardd yn ystod misoedd y gaeaf, ni fydd biniau brown yn cael eu casglu yn ystod misoedd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror yn y dyfodol. Cyflwynir y newid hwn ar 1 Rhagfyr. Bydd calendrau newydd yn cael eu hanfon at breswylwyr i esbonio'r newidiadau. Ni fydd amledd casgliadau biniau du, ailgylchu a gwastraff bwyd yn newid

Gwasanaeth casglu 7 diwrnod yr wythnos

Yn ystod yr mis Medi, bydd y Cyngor yn casglu gwastraff nifer fwy o breswylwyr ar ddydd Sadwrn a byddant yn casglu gwastraff ar ddydd Sul mewn nifer fechan o ardaloedd gwledig. Mae hyn yn dilyn penderfyniad i lansio gwasanaeth casglu gwastraff 6 diwrnod yr wythnos ym mis Tachwedd 2011. Llwyddwyd i arbed cryn dipyn o ran costau cerbydau drwy gyflwyno'r gwasanaeth ychwanegol hwn ac mae'n cael ei groesawu yn yr ardaloedd perthnasol.

Dyweddodd y Cyngorydd Kevin Jones, Aelod Cabinet dros y Strategaeth Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Hamdden:

"Rydym bob amser yn ddiolchgar i'n trigolion am eu hymrwymiad parhaus i ailgylchu eu gwastraff. Gan ein bod yn llwyddo casglu cymaint o ddeunyddiau i'w hailgylchu o ymyl o ffordd bob wythnos, mae'r sir yn y chwarter uchaf yng Nghymru, ond mae'n rhaid i ni barhau i weithio'n galed i wella ein perfformiad ailgylchu. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r ymdrech i ddod o hyd i arbedion ariannol sylweddol a byddant yn cryfhau'n safle ymhellach fel awdurdod sy'n arwain yn y maes yng Nghymru."

Cyflwyno Ffioedd Parcio



Cafodd strategaeth barcio sirol, sy'n cynnwys cyflwyno ffioedd parcio ym mhob maes parcio tref sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor fis Ebrill. Bydd y strategaeth newydd yn darparu dull cyson ar gyfer parcio oddi ar y stryd mewn meysydd parcio.

Mae mesurau parcio a gorfodaeth yn allweddol i reoli'r rhwydwaith priffyrdd yn effeithiol ac i helpu i osgoi tagfeydd. Mae rheoli parcio oddi ar y stryd yn effeithiol yn hanfodol i gynnal bywiogrwydd ac egni tref.

Bydd y ffioedd parcio yn cael eu gweithredu'n raddol ar draws y sir rhwng nŵan a diwedd y flwyddyn. Bydd ffioedd yn cael eu cyflwyno ym Mwcle ddydd Llun 17 Awst a bydd ffioedd newydd yn cael eu cyflwyno yng nghanol tref yr Wyddgrug. Mae amserlen gweddill y sir fel a ganlyn:

Medi – Treffynnon

Hydref - Y Fflint, Cei Connah, Queensferry, Shotton

I'w cadarnhau - Neuadd y Sir, yr Wyddgrug

Mae'r rhestr lawn o'r trefi a'r meysydd parcio yr effeithir arnynt, ynghyd â'r ffioedd a'r oriau y codir tâl, ar gael ar [we](http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/StreetScene/Related/Pay-and-Display-Car-Parking.aspx) (<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/StreetScene/Related/Pay-and-Display-Car-Parking.aspx>), fan y Cyngor.

Nid oes unrhyw gynllun i gyflwyno ffioedd i'r rheiny â bathodynau glas sy'n parcio ym meysydd parcio'r Cyngor mewn mannau parcio dynodedig i'r anabl.

Dyweddodd y Cyngorydd Bernie Attridge, Aelod Cabinet yr Amgylchedd a'r Dirprwy Arweinydd:

"Mae'r Strategaeth Parcio yn cael ei chyflwyno fel rhan o'n her i ganfod arbedion effeithlonrwydd o £18 miliwn a mwy yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Rydym ni wedi addasu'r cynigion gwreiddiol i gymryd prif bryderon a godwyd yn ystod ymgynghoriadau i ystyriaeth, a hoffwn ddiolch i bawb a rannodd eu barn."

Canolfan Llyfrgell yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy

Mae cynlluniau ar gyfer llyfrgell newydd sbon yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, i wasanaethu cymunedau Penarlâg, Mancot a Queensferry, bellach ar waith.

Cafodd y cynnig i adleoli llyfrgelloedd Penarlâg, Mancot a Queensferry i'r llyfrgell newydd ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Mai, ac mae'n rhan o gynllun tymor canolig cyffredinol ar gyfer llyfrgelloedd yn Sir y Flint,

Disgwylir i'r ganolfan newydd gostio tua £130,000, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid - dros £90,000 ohono – yn dod o grant gan CyMAL. Bydd hefyd yn arbed oddeutu £50,000 y flwyddyn i'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar ynglŷn â'r cynigion yn y cymunedau yr effeithir arnynt. Er bod pobl yn cydnabod y bydd er budd cyffredinol y ddarpariaeth llyfrgelloedd i'r dyfodol i fwrw ymlaen â datblygu canolfan newydd, roedd llawer o ddefnyddwyr y llyfrgelloedd hefyd yn pwysleisio bod rhaid cynllunio'r gwasanaeth i adlewyrchu'r tair cymuned leol, a gofyn hefyd i'r gwasanaeth gael ei ategu gan wasanaethau ychwanegol sy'n seiliedig yn y gymuned. Codwyd y posibilrwydd o wneud Trosglwyddiad Asedau Cymunedol hefyd.

Mae'r datblygiad bellach wedi'i gymeradwyo ar yr amod fod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gweithio gyda'r tair cymuned i fynd i'r afael â'r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a sicrhau hefyd y gwneir gwaith i asesu a yw gwneud Trosglwyddiad Asedau Cymunedol yn bosibl.

Dyweddodd y Cyngorydd Chris Bithell, Aelod o'r Cabinet dros Addysg:

"Er mwyn sicrhau fod gan y Cyngor wasanaeth llyfrgelloedd cynaliadwy a modern yn y dyfodol, rydym yn gorfod meddwl am ffyrdd newydd o'i ddarparu yn wahanol, gan gynnal y safon ar yr un pryd. Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio'n agos â'n cymunedau, ac, yn yr achos hwn, defnyddwyr y llyfrgell yn arbennig, i ddatblygu gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau gan gynnwys gwasanaethau cymunedol lleol yn ogystal â chanolfan llyfrgell newydd. Mae'r ganolfan llyfrgell newydd sbon yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn ddatblygiad cyffrous iawn a fydd yn galluogi pobl i gael mynediad hawdd at lyfrau, cyfrifiaduron a chyfleoedd i astudio."

Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu – yn dod i Fwcle a'r Wyddgrug

Mae dwy ganolfan Sir y Fflint yn Cysylltu arall ar fin agor yn ystod y misoedd nesaf a hynny yn Llyfrgell Bwcle a Llyfrgell yr Wyddgrug.

Ar hyn o bryd mae tair canolfan Sir y Fflint yn Cysylltu gan y Cyngor, yn Nhreffynnon, y Fflint a Chei Connah, ac yno gall y cyhoedd ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus o dan yr un to.

Drwy weithio mewn partneriaeth a'r gwasanaeth llyfrgell, bydd y ddwy ganolfan newydd yn caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys:

Gwasanaethau tai

Gwasanaethau Stryd

Bathodynau glas

Budd-daliadau tai

Treth Gyngor

Rhenti

Iechyd yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd

Trwsio a Chynnal a Chadw Tai

Bydd ciosg dalu hefyd ar gael i ganiatáu i bobl dalu eu holl filiau gan y Cyngor ag arian parod neu gerdyn.

Newidiadau i wasanaeth bws gwennol Glannau Dyfrdwy

Ni fydd bws gwennol Glannau Dyfrdwy, sy'n darparu cludiant ar y galw i weithwyr Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy sy'n byw yn Sir y Fflint, yn cynnig gwasanaeth o ddrws i ddrws y gellir ei archebu ymlaen llaw.

Cymeradwywyd y newid hwn gan Gabinet y Cyngor ym mis Mai fel rhan o adolygiad o wasanaethau bws cymorthdaledig.

Mae lefel y cymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth hwn yn uchel iawn (£6 y teithiwr) ac nid yw bellach yn fforddiadwy.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i deithwyr ffonio ac archebu eu teithiau ar fws gwennol Glannau Dyfrdwy drwy drefniant tebyg i ganolfan alwadau. Bydd y rhan hon o'r gwasanaeth yn dod i ben. Bydd y gwasanaeth newydd yn debyg iawn i wasanaethau cludiant cyhoeddus eraill, gydag amserlen ac arosfannau sefydlog. Bydd y pwyslais yn parhau ar gludo pobl i'r gwaith ac yn ôl mewn ffordd effeithlon ond bydd yn gweithredu fel 'gwasanaeth cyflym' gan stopio mewn safleoedd penodol ar hyd y llwybr.

Bydd teithiau hyd at 31 Awst 2015 (gan gynnwys y dyddiad hwnnw) yn parhau heb eu newid, a dylai teithwyr ffonio ac archebu eu seddi yn ôl yr arfer. O ddydd Mawrth 1 Medi 2015 bydd yn rhaid i deithwyr fynd i'r arhosfan bws agosaf a dal un o'r bysus a fydd yn eu cludo i'r gwaith ar amser. Bydd y llwybrau a'r amserlenni ar gael mewn llyfrgelloedd lleol, yng Nghanolfannau Cyswllt Sir y Fflint ac yn www.flintshire.gov.uk/DRT (<http://www.flintshire.gov.uk/DRT>).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am y gwasanaeth anfonwch e-bost at streetscene@flintshire.gov.uk neu ffoniwch 01352 701234.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge, Aelod Cabinet yr Amgylchedd:

"Roedd yr adolygiad hwn yn angenrheidiol oherwydd lefel yr arbedion ariannol yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu gwneud. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod ni'n cefnogi economi Sir y Fflint a thrwy ddisodli bws gwennol Glannau Dyfrdwy gyda'r llwybrau newydd hyn bydd trigolion Sir y Fflint yn parhau i gael mynediad at waith ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy."

Beth sydd 'mlaen

Mae llawer i'w gwneud yn Sir y Fflint yr haf hwn!



Beth bynnag fo'ch diddordebau, mae digonedd i'w wneud ar hyd a lled Sir y Fflint drwy gydol y flwyddyn.

Ar dudalen flaen ein [gwefan](http://www.siruffyflint.gov.uk/) (<http://www.siruffyflint.gov.uk/>) mae [adran ddigwyddiadau](http://www.siruffyflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Apps/Events.aspx) (<http://www.siruffyflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Apps/Events.aspx>) gynhwysfawr a chyfredol sy'n rhestru digwyddiadau a gynhelir ym mhob rhan o'r sir.

Os ydych am fynd i'r awyr agored, mae gan [Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint](http://www.siruffyflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Countryside-and-Coast/Parks-and-countryside.aspx) (<http://www.siruffyflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Countryside-and-Coast/Parks-and-countryside.aspx>) ddigon o syniadau, gan gynnwys teithiau cerdded hardd ar hyd Parc Arfordirol Cymru, hefyd mae gennym dudalen Facebook arbennig ar gyfer [Parc Gwepre](https://www.facebook.com/WepreParkParcGwepre) (<https://www.facebook.com/WepreParkParcGwepre>), ac mae bob amser yn werth ymweld ag [Amgueddfa a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas](http://www.greenfieldvalley.com/w/) (<http://www.greenfieldvalley.com/w/>).

Hefyd mae digon o gyfleoedd i hamdden a yng nghanolfannau hamdden y Cyngor, edrychwch [yma](http://www.siruffyflint.gov.uk/cy/Home.aspx#s=leisure) (<http://www.siruffyflint.gov.uk/cy/Home.aspx#s=leisure>), i weld beth sydd ar gael ac i ddod o hyd i'ch lleoliad agosaf.

A, chofiwch fod [Clwyd Theatr Cymru](http://www.clwyd-theatr-cymru.co.uk/cy/) (<http://www.clwyd-theatr-cymru.co.uk/cy/>), ar garreg eich drws.

Gwefan Archwilio Sir y Fflint



Mae lansiad wedi cael ei gynnal i ddadorchuddio gwefan twristiaeth newydd Cyngor Sir y Fflint - [archwiliosiruffyflint.co.uk](http://www.archwiliosiruffyflint.co.uk) (<http://exploreflintshire.co.uk/?lang=cy>).

Cynhaliwyd y digwyddiad ar yr un diwrnod ag y cyhoeddodd Maes Carafannau Tree Tops yng Ngwespwr ei fod wedi derbyn Gwobr Arian yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru.

Cafodd y lansiad ei gynnal gan Gymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint yng Ngwesty'r Springfield ym Mhentre Helygain ac roedd hefyd yn gyfle i fusnesau a sefydliadau lleol sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth - gan gynnwys gwystai, lletyau gwely a brecwast, safleoedd gwersylla a bwytai - i hyrwyddo eu prosiectau eu hunain a chyfnewid tafenni a deunydd hyrwyddo cyn dechrau'r tymor twristiaeth.

Cefnogir y wefan hefyd gan nifer o bartneriaid y Cyngor, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Sir y Fflint mewn Busnes, Cymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint, Gogledd-ddwyrain Cymru a Chreso Cymru.

Dyweddodd y Cynghorydd Derek Butler, Aelod o'r Cabinet dros Ddatblygu Economaidd:

Mae www.archwiliosiruffyflint.co.uk (<http://www.archwiliosiruffyflint.co.uk/>) yn wefan wych, a ddatblygwyd gydag ymwelwyr â'r sir mewn golwg. Rydym wedi creu pedwar maes allweddol - beth i'w wneud, lle i aros, lleoedd i fwyta a gadewch i ni archwilio - lle byddwch yn gallu dod o hyd i bopeth sydd ei angen amoch i sicrhau eich bod yn mwynhau eich ymweliad â Sir y Fflint. Wrth gwrs, mae hefyd yn lle gwych i bobl leol ddarganfod mwy am yr hyn sydd ar garreg y drws."

"Mae'r Cyngor hefyd yn dymuno llongyfarch Maes Carafannau Tree Tops yng Ngwespyr, am chwifio'r faner dwristiaeth yn Sir y Fflint, drwy ennill cydnabyddiaeth genedlaethol yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru. Llongyfarchiadau i bawb dan sylw!"

Parc sglefrio newydd Treffynnon yn agor yn swyddogol



Y Cynghorydd Kevin Jones yn agor y parc sgrialu newydd gyda, o'r chwith i'r dde, Luke Bodman a Michael Nagle o Ysgol Uwchradd Treffynnon, y Cynghorydd Peter Curtis a'r Cynghorydd Joe Johnson. Yn gwyllo dros y cyfan mae cynrychiolwyr o Gyngor Sir y Fflint, cyngor Tref Treffynnon ac Ysgol Uwchradd Treffynnon ac yn y cefn mae Alex Davies a Ben Frost.

Mae parc sglefrio cymunedol newydd yn Nhreffynnon wedi'i agor yn swyddogol.

Mae Parc Sglefrio Parc y Fron, sydd y tu ôl i Ganolfan Hamdden Treffynnon, wedi'i gynllunio a'i adeiladu yn dilyn ymgynghoriad â grwpiau ieuenctid brwdfrydig, sgrialwyr, beicwyr sgwter, sglefrwyr llinell a beicwyr BMX, gan ddarparu adrannau dysgu, a mwy o heriau ar gyfer y defnyddiwr mwy profiadol a brwdfrydig. Mae'r parc yn cynnwys powlenni, rampiau a phibellau concrid, ac fe gafodd y dyluniadau eu creu gan Acrete Skateparks.

Darparwyd y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y cynllun - £75,000 - gan WREN (Waste Recycling Environmental Ltd), sy'n fusnes nid er elw sy'n rhoi grantiau i brosiectau amgylcheddol a chymunedol ar draws y DU. Darparodd Cyngor Sir y Fflint £14,000 tuag at y cynllun, a rhoddodd Gyngor Tref Treffynnon £11,000. Cafodd y cynllun gymorth gan Gymunedau yn Gyntaf a Chlwb Sglefrio a Beicio Treffynnon hefyd.

Agorwyd y parc sglefrio yn swyddogol gan y Cynghorydd Kevin Jones, Aelod o'r Cabinet dros y Strategaeth Wastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Hamdden yng Nghyngor Sir y Fflint.



Dywedodd y Cynghorydd Kevin Jones:

"Rwy'n falch iawn ein bod yn agor y cyfleuster gwych hwn yn swyddogol i bobl ifanc Treffynnon. Roedd yn bwysig bod ganddynt lais yn ei ddyluniad, ac rwyf yn siŵr y byddant yn ei ddefnyddio a'i fwynhau, a chenedlaethau'r dyfodol o bobl ifanc, am flynyddoedd lawer i ddod. Hoffai'r Cynghorau Sir a Thref ddiolch i WREN am ddarparu grant mor hael i ganiatáu bod y cyfleuster hwn yn mynd yn ei flaen. Mae hon yn enghraifft wych arall o weithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i wella gwasanaethau lleol er budd pobl leol. Yn y tymor hwy, mae Cyngor Sir y Fflint yn ymroddedig i'w gynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau lleol ac asedau cyhoeddus, sy'n cynnwys ardaloedd chwarae a meysydd chwarae."

Dywedodd y Cynghorydd Peter Curtis, Is-gadeirydd Cyngor Sir y Fflint, aelod y ward leol a Chynghorydd Tref Treffynnon:

"Rwy'n falch iawn fod parc sglefrio newydd gwych Treffynnon bellach ar agor yn swyddogol. Cymerodd amser i ddod o hyd i safle addas ar gyfer y Parc hwn ac, ar ôl dod o hyd i safle addas, rydym yn ddiolchgar am y cymorth gan Gyngor Sir y Fflint i wneud y cyfan yn bosibl.

Hoffwn ddiolch i'n pobl ifanc am gymryd rhan yn y prosiect hwn; mae angen cyfleuster fel hyn yn yr ardal hon ers peth amser ac rwy'n gobeithio eu bod am gael oriau o hwyl yn ein Parc Sglefrio newydd."

Ychwanegodd Martin Fearnley, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Cyngor Tref Treffynnon:

"Er nad yw wedi'i lansio'n swyddogol tan heddiw, mae'r Parc Sglefrio eisoes yn boblogaidd iawn gyda phobl ifanc; mae wedi ennyn llawer o ddi-ddordeb ac yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn. Hoffwn weld cystadlaethau'n cael eu trefnu yn y Parc yn y dyfodol, gan

weithio gyda'r bobl ifanc ac asiantaethau partner mewn ymdrech i hybu balchder yn eu Parc a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb drosto a'i gadw'n gyfleuster diogel a phleserus i'w ddefnyddio.

"Mae llawer o waith da yn cael ei wneud, gan lawer sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac, yn bwysicach, gan y bobl ifanc eu hunain. Mae hon yn enghraifft wych arall o hynny."

Gŵyl Fwyd a Diod yr Wyddgrug 2015

Maes Parcio Stryd Newydd, Yr Wyddgrug – 19 a 20 Medi

Mae Gŵyl Fwyd a Diod yr Wyddgrug yn hen ffefryn ar galendr coginio'r rhanbarth ac ymysg digwyddiadau bwyd gorau Cymru.

Eleni mae'r Wyl yn dathlu deng mlynedd drwy arddangos cynnyrch gorau'r rhanbarth ynghyd â bwydydd a diodydd o'r safon uchaf o bob cwr o'r DU.

Hefyd eleni bydd arddangosiadau gan gogyddion enwog, gweithdai coginio rhyngweithiol, dros 100 o stondinau bwyd, adloniant i blant, cerddoriaeth fyw a mwy.

<http://www.moldfoodfestival.co.uk/> (<http://www.moldfoodfestival.co.uk/>)

Wythnos Fusnes Sir y Fflint 2015

Bydd Wythnos Fusnes Sir y Fflint 2015 yn cael ei chynnal rhwng 13 a 16 Hydref, a hynny am y nawfed tro. Bydd seremoni Gwobrau Busnes Sir y Fflint 2015 ar 23 Hydref.

Wythnos Fusnes Sir y Fflint, mewn partneriaeth ag AGS Security Systems a Westbridge Furniture, yw un o'r digwyddiadau pwysicaf o'i fath yn yr ardal, ac mae'n denu tua 2,000 o fusnesau bob blwyddyn. Mae'n cefnogi'r gymuned fusnes yn y sir ac, yn gynyddol, yn y rhanbarth ehangach, i hyrwyddo'u cwmnïau, i ddatblygu cyfleoedd masnachu ac i godi proffil yr ardal fell le i fuddsoddi ynddo.

Eleni, bydd yr wythnos fusnes yn dechrau ar 13 Hydref gyda digwyddiad lansio yng Ngholeg Cambria. Cynhelir y Gwobrau Busnes ym Mhlas Sychdyn, Llaneurgain, ddydd Gwener 23 Hydref.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Butler, yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd:

"Mae'r Cyngor yn gweithio'n ddiflino i roi busnesau o bob maint ar y map ac, ers naw mlynedd bellach, mae gan Wythnos Fusnes Sir y Fflint le pwysig ar galendr busnes y Sir.

"Rydym hefyd yn ffodus mai cenhadwr busnes Sir y Fflint, yr Arglwydd Barry Jones, yw'n llywydd.

"Hoffwn ddiolch i bob busnes sy'n cefnogi Wythnos Fusnes Sir y Fflint ac annog pawb i ddod draw i'r digwyddiadau ym mis Hydref."

Rali GB Cymru

Bydd Rali GB Cymru yn rhoi'n ôl i ogledd Cymru'n ddiweddarach eleni. Cynhelir rownd derfynol Prydain o Bencampwriaeth Rali'r Byd yr FIA rhwng 12 a 15 Tachwedd, ac unwaith eto bydd y digwyddiad mawreddog hwn yn dod yma i Sir y Fflint.

Fel y llynedd, bydd y Parc Gwasanaeth rali prysur, lle mae 160 o dimau wedi'u lleoli ger gweithfeydd Toyota Engine yng Nglannau Dyfrdwy i roi mynediad cyhoeddus am ddim i unrhyw un sydd am gwrdd â'r sêr a gweld y ceir.

Wrth gwrs, bydd y rhai mwyaf anturus yn eich plith am weld y peiriannau tyrbocwythedig hyn – a'u gyrrwyr dewr – ar waith yn gyrru'n gyflym; mae mwyafrif y camau cystadleuol dramatig yn digwydd yng nghoedwigoedd chwedlonol y rhanbarth. Fodd bynnag, i'r rheiny sydd ddim am fentro i bellafoedd y wlad, bydd Gŵyl Rali, sydd wedi'i thargedu at deuluoedd, yn cael ei chynnal yng Nghastell y Waun ar y p'nawn Sadwrn.

Edrychwch ar y wefan swyddogol www.walesrallygb.com i ganfod mwy.

Diwrnod Agored yr Archifdy Hanesyddol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn agor drysau ei Archifdy i ganiatáu i ymwelwyr weld y 'tu ôl i lenni' Hen Adeilad y Reithordy ym Mhenarlâg.

Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn 5 Medi rhwng 10am a 2pm fel rhan o'r Cynllun Drysau Agored cenedlaethol.

Bydd y digwyddiad arbennig yn cynnwys arddangosfa am adeiladau hanesyddol y pentref efo lluniau 'heddiw a ddoe' a bydd ymwelwyr hefyd yn gallu ymuno â Thai Hanes o gwmpas y pentref dan arweiniad tywysydd gwybodus. Bydd y teithiau yn dechrau am 10.30am a 12:30 ac yn para awr a chwarter. Mae'n rhaid archebu o flaen llaw.

Dyweddod y Cyng. Chris Bithell, Aelod Cabinet Addysg: "Mae'r Archifdy yn wasanaeth pwysig a gwerthfawr iawn sy'n darparu llawer o gymorth a mwynhad i bobl sy'n ymchwilio i hanes eu teulu neu hanes yr ardal leol. Dyma gyfle gwych i ymwelwyr weld y tu ôl i lenni'r adeilad hanesyddol hwn. Rydym ni'n edrych ymlaen at groesawu cymaint o bobl â phosibl i'r digwyddiad rhad ac am ddim yma."

Am fwy o wybodaeth neu i archebu eich lle ar y daith hanes, ffoniwch 01244 532364 neu anfonwch e-bost i archives@flintshire.gov.uk

Sir y Fflint yn croesawu Taith Prydain Aviva



Prif ddigwyddiad beicio ffyrdd seiclo Prydain yw Taith Prydain Aviva, sy'n rhoi cyfle i gefnogwyr weld timau a beicwyr gorau'r byd yn cystadlu ar eu stepen drws.

Bydd Sir y Fflint yn croesawu Taith Prydain Aviva wrth i'r beicwyr fynd trwy'r Wyddgrug a Bwcle ar Gam 1 y ras ddydd Sul, 6 Medi. Bu miloedd ar y llwybr drwy Sir y Fflint y llynedd ac mae torfeydd mawr yn sicr o fod allan eto yn dangos eu cefnogaeth i'r beicwyr eleni.

Mae'r ras yn dechrau ym Miwmares, Ynys Môn yn gynharach yn y dydd ac yn teithio ar draws Gogledd Cymru i orffen Cam 1 yn Wrecsam.

Dyweddod y Cyng. Kevin Jones, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Hamdden,

"Mae Taith Prydain Aviva yn ddigwyddiad cyffrous, proffil uchel a bydd modd gweld uchafbwyntiau'r digwyddiad ar y teledu ledled y byd. Rwyf wrth fy modd y bydd hyn a'r sylw helaeth yn y wasg leol a chenedlaethol ac ar-lein yn dod â Sir y Fflint i sylw cynulleidfya ryngwladol enfawr.

"Mae hwn yn gyfle gwych i bobl leol weld y gorau o seiclo rhyngwladol ac rwyf yn siŵr y bydd torfeydd allan yn llu i fwynhau cyffro a gwefr y ras."

I gael manylion llawn am Daith Prydain Aviva, gan gynnwys amserlen llwybr ewch i www.tourofbritain.co.uk (<http://www.tourofbritain.co.uk/>).

Newyddion gan ein partneriaid

Deddf newydd i Landlordiaid ac Asiantau Gosod

Caiff deddf newydd ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod ei chyflwyno'r Hydref hwn. Y nod yw codi safonau gosod a rheoli tai rhentu preifat yng Nghymru.

Bwriedir i'r ddeddfwriaeth wneud y canlynol:

- gwella safonau arferion gosod a rheoli yn y sector rhentu preifat
- sicrhau bod mwy o wybodaeth am landlordiaid ar gael i denantiaid ei gwirio ac i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i ymyrryd yn strategol a lledaenu gwybodaeth
- codi ymwybyddiaeth landlordiaid ac asiantau o'u priod hawliau a chyfrifoldebau
- yn ei dro, codi ymwybyddiaeth tenantiaid o'u priod hawliau a chyfrifoldebau.

Amlinelliad o'r ddeddfwriaeth newydd

- mae'n rhaid i bob landlord preifat gofrestru ei hun a chyfeiriad ei eiddo rhent yng Nghymru gyda'r awdurdod trwyddedu dynodedig
- mae'n rhaid i landlordiaid sy'n cyflawni gweithgareddau gosod neu reoli eiddo diffiniedig mewn eiddo rhent yng Nghymru gael ei drwyddedu. Os bydd landlord yn cyfarwyddo asiant i wneud gwaith o'r fath ar ei ran, yr asiant hwnnw sy'n gorfod cael ei drwyddedu
- er mwyn cael trwydded mae'n rhaid i unigolyn fod wedi'i hyfforddi'n ddigonol, a datgan ei fod yn 'addas a phriodol' hefyd

- yr awdurdod trwyddedu ac awdurdodau lleol unigol lle mae eiddo rhent wedi'i leoli yn gyfrifol am unrhyw gamau gorfodi y mae angen eu cymryd lle y ceir achosion o ddiffyg cydymffurfio
- bydd y gyfundrefn gyfreithiol yn disodli cynllun gwirfoddol presennol "Achredu Landlordiaid Cymru" a weithredir gan Gyngor Caerdydd ar ran pob awdurdod lleol yng Nghymru
- bydd yr awdurdod trwyddedu newydd yn sefydlu cronfa ddata ganolog, gynhwysfawr o'r holl landlordiaid preifat ac asiantau sy'n gweithredu yn y sector. Bydd rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar-lein
- bydd yr awdurdod trwyddedu yn cynnig darpariaeth hyfforddi a datblygu. Fodd bynnag, gall pobl sy'n gwneud cais am drwydded ddewis dilyn cyrsiau hyfforddi cymeradwy, penodol a ddarperir gan gyrrff eraill.

Am ragor o wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin, ewch i <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-supply/renting/privately/landlord-and-agent-registration> (<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-supply/renting/privately/landlord-and-agent-registration>).

Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol

Ydych chi'n gwybod am grŵp gwirfoddol sy'n neilltuo ei amser i helpu eraill yn eich ardal leol ac sy'n haeddu Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol?

Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol yw'r wobwr fwyaf a roddir i grwpiau gwirfoddol lleol i gydnabod y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud yn eu cymunedau.

Ewch i <http://qavs.direct.gov.uk/> (<http://qavs.direct.gov.uk/>) a chyflwynwch eich enwebiad erbyn **18 Medi 2015** i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer gwobr y flwyddyn nesaf.

Ni ddylech chi fod yn rhan o'r grŵp, gallwch ymgeisio am ddim ac enwebu ar unrhyw amser. Mae nodiadau ar gael i'ch helpu ar <https://qavs.direct.gov.uk/guidance-notes> (<https://qavs.direct.gov.uk/guidance-notes>).

Cyhoeddir yr enillwyr ar **2 Mehefin** bob blwyddyn a byddant yn derbyn gwyrdr crisial siâp cromen a thystysgrif wedi'i harwyddo gan y Frenhines.

[Taylorfitch](http://www.taylorfitch.com/) (<http://www.taylorfitch.com/>). Dod â newyddleni yn fyw o flaen eich llygaid